

Cylchlythyr ADAA (Hydref 2018)

Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe

Mae Cylchlythyr SALT yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref, Ionawr ac Ebrill. Mae'n cynnwys eitemau o ddiddordeb wedi'u hamlygu gan dîm SALT a gwesteion â gwahoddiad.

Newyddion gan y Cyfarwyddwr

Croeso i Gylchlythyr SALT sydd newydd gael ei ailwampio ar ddechrau flwyddyn academig newydd. Dwi'n gobeithio gwnewch ffeindio'n ddefnyddiol, deniadol ac yn addysgiadol. Rydym wedi cynnwys arwyddion tuag at eitemau o ddiddordeb sydd gerllaw a dwi'n annog chi i ymweld â'r linciau sy'n gyswllt ac i gysylltu â'r tîm os ydych am fwy o fanylion.

Rydym wedi derbyn adborth ardderchog mewn perthynas â chyhoeddi'r cylchlythyr hwn. Parhewch i roi gwybod inni a oes unrhyw beth penodol yr hoffech ei weld wedi'i gynnwys trwy gysylltu â Golygydd y Cylchlythyr Debbie Baff (deborah.baff@swansea.ac.uk) neu fy hun.

Yr Athro Jane Thomas Cyfarwyddwr SALT

Cynnwys

1. Cynhadledd Flynyddol SALT
2. Rhaglen Seminar a Gweithdy 7C yn Dychwelyd
3. Drws Agored
4. Ceisiadau Cymrodoriaeth HEA

Nodwch fod ffurfiau arall o'r cylchlythyr yma ar gael (PDF a Saesneg) sydd ar gael ar wefan SALT.

SUSALT18 Addysgu gydag Effaith

Fe wnaeth 10fed Cynhadledd Flynyddol SALT gymryd lle ar y 18fed o Orffennaf 2018 ar Gampws y Bae. Thema'r gynhadledd eleni oedd Addysgu gydag Effaith: Arloesi, Datblygu, Cysylltu, Dyheu. Dyma'r flwyddyn gyntaf i'r gynhadledd gael ei chynnal ar Gampws y Bae gyda dros 250 o gynrychiolwyr roedd yna ddigonedd o gyfleoedd i gyfrannu, cydweithio ac i rannu ymarfer da ar draws y Brifysgol.

Roedd y diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau gan y Prif Siaradwyr, Yr Athro Sally Ann Bradley (Arweinydd Academaidd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol yn Advance HE) a Dirprwy Is-Ganghellor Martin Stringer. Roedd y ddau yn ysbrydoledig ac yn peri'r meddwl.

Gall [recordiadau](#) gael eu darganfod ar wefan y gynhadledd ynghyd â chrynodebau o dros 60 o sesiynau paralel.

Uchafbwyntiau o # SUSALT18

#SUSALT19

Cynhelir cynhadledd y flwyddyn nesaf yng Nghampws y Bae - Cadwch y dyddiad yn eich dyddiaduron ar 17 Gorffennaf 2019 a gwnewch yn siŵr i gadw llygaid allan am yr Alwad am Bapurau ar ôl y Nadolig.

Rhaglen o seminarau a gweithdai am y saith nodwedd sy'n gwneud athro da yn dychwelyd

Mae'n bleser gennym ddweud wrth staff ym Mhrifysgol Abertawe fod y rhaglen o seminarau a gweithdai, ynghylch y 'Saith Nodwedd sy'n gwneud Athro Da yn y Brifysgol' a gyflwynir gan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe, yn cael ei chynnal unwaith eto drwy gydol blwyddyn academaidd 2018/19.

Cynhelir y sesiynau misol ar ddydd Mercher rhwng 13:00–14:00 unwaith eto, naill ai ar Gampws Singleton neu Gampws y Bae. Byddem wrth ein boddau yn gweld pobl wyneb yn wyneb, ond byddwn hefyd yn defnyddio Blackboard Collaborate lle bo modd – sef teclyn webinar – i'w wneud hyd yn oed yn haws i ymuno. Caiff y rhan fwyaf o'r sesiynau eu recordio hefyd.

Nodwyd bod y seminarau a'r gweithdai ar y pwnc 'saith nodwedd' yn ystod 2017/18 yn ddigwyddiadau Datblygu Proffesiynol Parhaus gwerthfawr a dymunol. Mae croeso i bob aelod o staff ddod i'r rhaglen eleni. Darperir lluniaeth ysgafn. Cysylltwch â Rhian yn Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe i gael rhagor o wybodaeth ynghylch dod i sesiynau'r rhaglen, cynnig awgrymiadau o ran sesiynau neu os hoffech gyflwyno digwyddiad – r.e.ellis@abertawe.ac.uk Est.4302.

Seminar 1 - Hydref 2018 - Dysgu Profiadol

Ein digwyddiad cyntaf ar gyfer 2018/19 – 17 Hydref, 1–2yp – Dysgu drwy brofiad. Cafodd y seminar gyntaf eleni ei chyflwyno gan Yr Athro

Richard Owen, o Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton, Prifysgol Abertawe. Esboniodd Richard sut y caiff y modiwlau 'dysgu drwy brofiad' eu cyflwyno a'u datblygu yng nghyd-destun saith egwyddor arfer da Chickering a Gamson. Yn rhan o'r sesiwn ysbrydoledig hon, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd y gellir addasu'r profiadau hyn i ddisgyblaethau eraill, a bydd recordiad fideo o'r digwyddiad ar gael drwy ddolen deledu Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe ar ein gwefan yn fuan.

Seminar 2 - Tachwedd 2018 - Cylchgronau Adborth

Yr ail ddigwyddiad ar gyfer 2018/19 – 14 Tachwedd, 1–2yp, Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe, Campws Parc Singleton – Cyfnodolion Adborth Caiff y sesiwn hon ei chyflwyno gan Dr Joanne Berry o Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe, a'i nod yw trafod yr effaith a gafodd cynllun peilot y 'Cyfnodolion Adborth' (lle roedd myfyrwyr yn cofnodi'r adborth a gawsant ar bob modiwl roeddent yn ei astudio) ar ymrwymiad a datblygiad myfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe.

Dyluniwyd y cyfnodolyn i helpu myfyrwyr i fyfyr ar eu siwrnai academaidd, a chynnig deunyddiau i'w Mentoriaid Academaidd er mwyn ysgogi trafodaeth benodol a manwl am y ffordd y gallai pob myfyriwr unigol wella ei berfformiad academaidd. Bydd y sesiwn yn mynd i'r afael â goblygiadau bwriadol ac anfwriadol y fenter hon, ac ymatebion staff a myfyrwyr iddo, yng nghyd-destun 'saith egwyddor arfer da' Chickering a Gamson. Mae gennym rhai llefydd ar ôl, cadwch le nawr gan glicio ar y botwm isod.

[Archebwch Eich Lle](#)

Bydd hwn yn rhan o'r gyfres o ddigwyddiadau yn yr "Wythnos Adborth".
Manylion isod."Wythnos Adborth"

[WYTHNOS ADBORTH](#)

Agor Drysau yn Abertawe

Mae Rhaglen Drws Agored Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe, sy'n cynnig cyfleoedd i arsylwi ar sesiynau a addysgir gan gydweithwyr, yn cael ei chynnal eto y flwyddyn academaidd hon, a chaiff sesiynau ardderchog eu cyflwyno gan athrawon ar y ddau gampws.

Mae'r rhaglen Drws Agored yn cyd-fynd ag athrawon gydag athrawon, i hwyluso datblygiad sgiliau, gwybodaeth a hyder. Mae athrawon â chwestiynau, materion, syniadau neu flociau yn cael cyfle i eistedd mewn sesiynau a ddarperir gan gydweithwyr sy'n hysbys am rai

agweddau o'u haddysgu. Gallant ddewis y math o sesiwn yr hoffent eistedd ynddo, lle bo'n bosib y gallant ddewis y ddisgyblaeth. Wedyn gallant siarad â'r Athrawes Drws Agored i drafod sut aeth a pham.

Rhaglen Drysau Agored SALT

Mae gan yr Athro Danny McCarroll (Daearyddiaeth) bron i 30 o sesiynau i'w cynnig yn Singleton, sy'n ymdrin ag ystod o arddulliau addysgu a chyfluniadau.

Mae gan Dr Sian Rees (y Cyfryngau a Chyfathrebu) sesiynau ym mloc addysgu 1, gan ddangos ei dull hithau tuag at ymneilltuo gwaith grŵp bach o fewn cyd-destun grŵp mawr.

Mae gan yr Athro Simon Bott (Cemeg) un sesiwn yn weddill yn Singleton, gan wrthdroi'r addysgu ar gyfer grŵp Cemeg yn y flwyddyn gyntaf.

Mae Sharon Harvey (Nyrsio) yn cyfuno dulliau dysgu gwrthdro â dysgu gweithredol, ac yn cynnwys rhywfaint o efelychu i'w sesiynau.

Mae hefyd gan Dr Jo Hudson (Gwyddorau Chwaraeon) sesiynau trwy gydol bloc dysgu 1. Cymysgedd o ddarlithoedd a gweithdai o fewn grwpiau mawr. Ar Gampws y Bae.

Mae Ute Keller-Jenkins yn cynnig ei sesiynau Almaeneg sy'n llawn dulliau rhagorol o ennyn diddordeb ac ymrwymiad myfyrwyr – roeddem wedi'n cyfareddu pan wnaethom ni ei gweld hi a dy'n ni ddim hyd yn oed yn siarad Almaeneg!

Mae gan Dr Mark Coleman (Peirianeg) sesiynau i chi arsylwi ar Ddydd Gwener yng Nghampws y Bae. Mae'r sesiwn ar Ddeunyddiau ac mae'n ennyn diddordeb grwpiau mawr. Mae Slido a thechnoleg arall yn cael eu defnyddio. Mae Mark yn defnyddio'r gwagle a'r pwnc i'w mantais. 125 o fyfyrwyr, i gyd yn gwrando arno!

Diddordeb mewn Ymuno â Sesiwn Drws Agored?

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Drws Agored yma (gan gynnwys sut i gofrestru er mwyn dod i sesiwn).

Drws Agored

Ceisiadau Cymrodoriaeth HEA

Mae mwy o gyfleoedd i ddarganfod sut mae gwneud cais Cymrodoriaeth HEA yn Abertawe ym mis Ionawr 2019. Cofrestrwch drwy ein tudalen Digwyddiadau i ddod.

[Digwyddiadau i ddod](#)

Cylchlythyr SALT

Mae'r cylchlythyr yma hefyd ar gael mewn ffurf wahanol

- PDF (Saesneg)
- PDF (Cymraeg)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau gwelir ein gwefan neu danfonwch ebost i salt@swansea.ac.uk

[SALT](#)

www.salt.swan.ac.uk

Hydref 2018